**HYSBYSIAD AM Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL**

**GWEINIDOGION CYMRU**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN A THYNNU STATWS CEFNFFORDD) 2021**

**ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL HYSBYSIAD AM BENDERFYNIAD YN UNOL AG ADRAN 105B O DDEDDF PRIFFYRDD 1980 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**ASESIAD O'R GOBLYGIADAU AR GYFER SAFLEOEDD EWROPEAIDD HYSBYSIAD AM DDATGANIAD I HYSBYSU ASESIAD PRIODOL YN UNOL AG ADRAN 63 O REOLIADAU CADWRAETH CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried y Datganiad Amgylcheddol (DA) a enwir uchod, a'r Datganiad a fydd yn Sail i Asesiad Priodol (DSAP), a'r holl sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd mewn ymateb i gyhoeddi'r dogfennau hyn, ac wedi penderfynu bwrw ymlaen â Gwellliannau'r A40 Llanddewi Felffre i Benblewin.

Mae copïau o'r DA, y DSAP, a Llythyr Penderfyniad Gweinidogion Cymru, gan gynnwys unrhyw amodau, y rhesymau a'r ystyriaethau sy'n sail i'r Penderfyniad, ac Adroddiad yr Arolygydd a gynhaliodd Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol i'r Cynllun, wedi eu hadneuo yn y mangreoedd a ganlyn lle y maent ar gael i'w gweld yn rhad ac am ddim yn ystod oriau busnes arferol rhwng 24 Mawrth 2021 a 5 Mai 2021.

- Gorsaf Betrol Gwasanaethau Preseli, Llanddewi Felffre, Arberth, SA67 7PD (yn ystod oriau busnes arferol y sefydliad hwn);

- Neuadd y Frenhines, 44 Stryd Fawr, Arberth, SA67 7AS. Dim ond drwy apwyntiad y gellir gweld y dogfennau hyn a dylid gwneud trefniadau drwy Swyddog Cyswllt y Cyhoedd, Mr Martin Gallimore, gan ddefnyddio'r wybodaeth gyswllt ganlynol: rhif ffôn symudol 07923 887119 a chyfeiriad e-bost a40enquiries@arup.com.

**Sylwer:** Bydd mynediad i'r lleoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau COVID-19 perthnasol fydd ar waith ar y pryd.

**NOTICE OF THE ENVIRONMENTAL STATEMENT**

**THE WELSH MINISTERS**

**THE LONDON TO FISHGUARD TRUNK ROAD (A40) (LLANDDEWI VELFREY TO PENBLEWIN IMPROVEMENT AND DE-TRUNKING) ORDER 2021**

**ENVIRONMENTAL IMPACT ASSESSMENT NOTICE OF DETERMINATION IN ACCORDANCE WITH SECTION 105B OF THE HIGHWAYS ACT 1980 (AS AMENDED)**

**ASSESSMENT OF IMPLICATIONS FOR EUROPEAN SITES NOTICE OF STATEMENT TO INFORM AN APPROPRIATE ASSESSMENT IN ACCORDANCE WITH SECTION 63 OF THE CONSERVATION OF HABITATS AND SPECIES REGULATIONS 2017**

The Welsh Ministers have considered the above named Environmental Statement (ES) and the Statement to Inform an Appropriate Assessment (SIAA) and all written comments made in response to the publication of these documents and have decided to proceed with the A40 Llanddewi Velfrey to Penblewin Improvement Scheme.

Copies of the ES, SIAA, and the Welsh Ministers Decision Letter including any conditions, the reasons and considerations behind the Decision, and the Inspector's Report who conducted a Public Local Inquiry into the Scheme, have been deposited at the following premises where they are open to inspection free of charge at all reasonable business hours from 24 March 2021 to 5 May 2021.

- Preseli Services Petrol Station, Llanddewi Velfrey, Narberth, SA67 7PD (during normal business hours of this establishment);

- Queens Hall, 44 High Street, Narberth, SA67 7AS. Viewings are strictly by appointment only and arrangements should be made via the Public Liaison Officer, Mr Martin Gallimore, using the following contact information: mobile phone 07923 887119 and email a40enquiries@arup.com.

**Please note**: Access to these venues will be subject to the relevant COVID-19 restrictions in place at the time.

Mae copïau electronig o'r Crynodeb Annhechnegol, y DA a'r DSAP wedi eu cyhoeddi ar-lein yn https://llyw.cymru/a40-llanddewi-felffre-i-penblewin, ynghyd â chopi o'r hysbysiad hwn.

Bydd copïau electronig o'r DA a'r DSAP ar gael ar gais gan y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. Bydd copiau caled hefyd ar gael o'r cyfeiriad uchod os oes angen.

Caiff UNRHYW BERSON A DRAMGWYDDIR gan y penderfyniad a wnaed i fwrw ymlaen, ar ôl i'r DA a'r DSAP, a'r sylwadau yn eu cylch, gael eu cyhoeddi, sy'n dymuno herio eu dilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddynt, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o 24 Mawrth 2021 i 13 Ionawr 2021 neu o fewn 6 wythnos i'r dyddiad y caiff yr hysbysiad hwn ei gyhoeddi gyntaf, os daw cyfnod o'r fath i ben yn ddiweddarach ar y sail:

- nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, neu
- na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad yn y Ddeddf honno neu mewn rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw,

Os gwneir cais o'r fath, caiff y Llys atal neu ddiddymu'r penderfyniad hwnnw neu unrhyw ddarpariaeth ynddo.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y prosiect, y DA, y DSAP, y Penderfyniad, neu'r hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Llywodraeth Cymru, neu Mark Dixon, Seilwaith, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**N HUNTER**
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru
ar ran Gweinidogion Cymru

Electronic copies of the Non-Technical Summary (NTS), the ES and SIAA are published on-line at https://gov.wales/a40-llanddewi-velfrey-penblewin, together with a copy of this notice.

Electronic copies of the ES and SIAA will be made available on request to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ. Paper copies are also available from the above address.

ANY PERSON AGGRIEVED by the decision taken to proceed following the publication of the ES and the SIAA, and the comments thereon, who desires to question their validity, or the validity of any provision in them, may apply to the High Court within 6 weeks from 24 March 2021 or 6 weeks from the date of first publication of this notice, if such a period shall expire later on the grounds that:

- it is not within the powers of the Highways Act 1980, or
- any requirement of that Act or of regulations made under that Act has not been complied with in relation to that decision,

On such an application, the Court may suspend or quash that decision or any provision in it.

Further information about the project, the ES, SIAA the Decision, or this notice can be obtained from Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or Mark Dixon, Infrastructure, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**N HUNTER**
Business Team Leader
Welsh Government
On behalf of the Welsh Ministers